Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

# Gweithgaredd Creu Ceiniog Canoloesol!



**Creu Ceiniog Canoloesol eich hunain!**

- Addas i oedran 7+
- Yn gyntaf casglwch bopeth fyddwch angen (rhestr isod)
- Darllenwch yr adran wybodaeth (tudalen 2) er mwyn dysgu mwy am esiamplau o geiniogau Oes Ganoloesol sydd wedi'i ddarganfod yng Ngwynedd.









@gwyneddarch

# Byddwch angen....

**Paced o glai modelu llwyd/arian sydd yn caledu yn y popty, wnaethom ni defnyddio Fimo Soft (byswch yn gallu defnyddio play dough).**

Mae ar gael i'w brynu ar-lein.

Os ydych yn penderfynu defnyddio math arall o ddeunydd modelu cofiwch weld os yw'n addas i'w rhoi yn y popty.




**Botwm, caead beiro, deintbig**







# Adran Gwybodaeth

Dyma esiamplau o geiniogau Oes Ganoloesol a ddarganfuwyd rhwng Llanllyfni a'r Fron. Mae'r ceiniogau hyn yn bellach yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Storiel, Bangor. Maent hefyd i'w weld ar wefan Cynllun Henebion Cludadwy (Rhif PAS NMGW-11D242)

## Llanllyfni/ Y Fron Coin Hoard

Rhwng Llanllyfni a Y Fron daeth synwyryddion metel o hyd i 16 o geiniogau o'r cyfnod Canoloesol - Ôl- Ganoloesol. Gwnaed y ceiniogau tua 1352 - 1529 (490-670 o flynyddoedd yn ôl). Credir i'r darnau arian gael eu claddu tua 1530. Mae'r rheswm pam y claddwyd y darnau arian hyn yn ansicr. Efallai bod y person a gladdasant nhw wedi gwneud hynny i'w gadw'n ddiogel neu'n gudd, ond ni ddaethent yn nol amdanynt oherwydd naill ai oeddent wedi anghofio ble oedd wedi'i rhoi neu mi fu farw nhw cyn eu cloddio yn ôl i fyny.

Mae'r rhan fwyaf o'r darnau arian hyn yn bisiau grôt. Grôt yw ddarn o arian gwerth tua phedair hen geiniog.



# Patard Ddwbl

O fewn y casgliad o geiniogau oedd ddau petard ddwbl o'r Iseldiroedd Bwrgwynaidd (Iseldiroedd). Fe oedd patiau dwbl Bwrgwynaidd o Fflandrys a Brabant yn dendr cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, fel grotiau, o 1469.






# Creu Ceiniog Canoloesol eich hunain!

Os ydych wedi darllen yr adran wybodaeth mae gennych chi bopeth rydych angen i greu ceiniog Ganoloesol eich hunain! Pob lwc! Gyrrwch ni lluniau o eich ceiniogau!

1. Torrwch i ffwrdd darn bach o glai.



2. Roliwch y clai i wneud pelen fach.



3. Gwasgwch y belen yn ofalus yn eich bysedd i wneud yr arwyneb yn fwy gwastad.






4. Nawr mae'n amser creu eich patrwm! Byswch yn gallu gwthio botwm yn ofalus mewn i arwyneb y clai i wneud patrwm neu ddefnyddio caead beiro neu deintbig.









5. Gofynnwch oedolyn i helpu chi pobi eich ceiniogau. Defnyddiwch hambwrdd nad yw'n glynu. Wnaethon ni defnyddio Fimo Soft a'i phobi ar 110°C am tua 25 munud. Bydd yr hambwrdd yn boeth wrth ddod allan o'r popty.



6. Gadewch i'r ceiniogau oeri – ni fyddent wedi caledu yn iawn nes ei fod wedi oeri.



Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn rhedeg cangen Bangor o Clwb Archaeolegwyr Ifanc. Mae'r clwb i oedran 8-16. Os oes gennych diddordeb ymuno cysylltwch a danamor@heneb.co.uk